# MEINI PRAWF DERBYN

## 1. Cyflwyniad

**Amdanom ni**

1.1 Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw’r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU.
Ar hyn o bryd, mae tua 35,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optegwyr dan hyfforddiant, a busnesau optegol wedi’u cofrestru â ni.

1.2 Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:
- 1.2.1 gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad, ac ymddygiad;
- 1.2.2 cymeradwyo cymwysterau sy’n arwain at gofrestru;
- 1.2.3 cadw cofrestr o unigolion sy'n gymwysedig ac yn addas i ymarfer, hyfforddi, neu gynnal busnes fel optometryddion ac optegwyr cyflenwi;
- 1.2.4 ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi, neu gynnal busnes.

1.3 Ein hamcan cyffredinol yw diogelu’r cyhoedd. Rydym yn gweithredu pan fydd angen er mwyn diogelu cleifion a/neu gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau optegol.

**Diben y ddogfen hon**

1.4 Diben y ddogfen hon yw rhoi arweiniad am Addasrwydd i Ymarfer i aelodau staff, cofrestreion, achwynwyr, ac aelodau o’r cyhoedd.

1.5 Yn unol â’n hamcan cyffredinol, bwriedir i’n gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer ddiogelu’r cyhoedd. Ni fwriedir iddynt weithredu fel proses gyffredinol ar gyfer datrys cwynion, ac ni fwriedir iddynt chwaith ddatrys anghydfodau sifil rhwng cofrestreion a chleifion.

1.6 Bydd yn well i gyrff eraill ddelio â rhai mathau o gwynion. Er enghraifft, byddai’n well i’r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) ddelio â materion sy’n ymwneud â defnyddwyr. Mae gan yr OCCS amrywiaeth ehangach o ddulliau a all ddatrys rhai cwynion yn fwy priodol. Yn yr un modd, mae'n bosibl y caiff materion eu hatgyfeirio atom gan yr OCCS y bydd angen eu hasesu yn erbyn y meini prawf hyn wedyn. Mae rhagor o wybodaeth am yr OCCS ar gael yn www.opticalcomplaints.co.uk

1.7 Mae esboniad manwl o'n gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar ddiwedd ymchwiliad, ar gael ar ein gwefan: https://optical.org/raising-concerns/raising-concerns-about-an-optician/how-we-investigate-a-concern.html

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

1.8 Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi ymrwymo i drin pawb yn deg, beth bynnag fo'u hoedran, rhywedd, anabledd, ailbennu rhywedd, ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, beichiogrwydd neu famolaeth, a chyfrifoldebau gofalwr.

## Beth yw Meini Prawf Derbyn?

1.9 Mae’r Meini Prawf Derbyn hyn yn adnodd rheoli achosion a ddefnyddir gennym i benderfynu a ddylid derbyn cwyn fel honiad bod hyn wedi amharu ar addasrwydd i ymarfer fel y’i diffinnir gan adran 13D o Ddeddf Optegwyr 1989. Mae’r adran honno’n datgan y gall unrhyw un o’r materion canlynol, neu bob un ohonynt, amharu ar gofrestrai:

a. camymddwyn;
b. perfformiad proffesiynol diffygiol;
c. euogfarn neu rybuddiad;
d. derbyn cynnig amodol neu gytuno i dalu cosb;
e. achos yn yr Alban (os bydd y cofrestrai yn destun gorchymyn sy’n ei ryddhau’n ddiamod);
f. iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael; a/neu
g. penderfyniad gan gorff arall.

1.10 Os bydd cwyn yn bodloni’r Meini Prawf Derbyn, byddwn yn agor ymchwiliad i weld a yw’n amharu ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer. Mae’r Meini Prawf Derbyn yn berthnasol i optometryddion, optegwyr cyflenwi, optometryddion dan hyfforddiant, ac optegwyr cyflenwi dan hyfforddiant cofrestredig.

1.11 Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu bod cofrestrai yn dangos bod ganddo’r sgiliau, yr wybodaeth, y cymeriad, a’r iechyd i wneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol, a hefyd i gynnal enw da’r proffesiwn.

1.12 Wrth gyflawni’r dasg hon, byddwn yn cadw’r canlynol mewn cof bob amser:

1.12.1 ein hamcan cyffredinol: diogelu’r cyhoedd;
1.12.2 ein Safonau Ymarfer a'n Safonau ar gyfer Myfyrwyr; a
1.12.3 budd y cyhoedd.

1.13 Byddwn yn adolygu’r meini prawf yn rheolaidd i ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a chyfraith achosion, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â dogfennau canllaw cysylltiedig eraill. Byddwn yn sicrhau eu bod yn addas i’r diben ac yn hygyrch i bawb a fydd yn eu defnyddio.

**Camau y gall y Cyngor Optegol Cyffredinol eu cymryd ar y cyfnod Meini Prawf Derbyn**

1.14 Wrth ystyried cwyn newydd, ceir nifer o wahanol gamau y gallwn eu cymryd:

1.14.1 agor ymchwiliad;

1.14.2 agor ymchwiliad ac atgyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor Gorchmynion Interim;

1.14.3 cau'r gŵyn heb gymryd camau pellach; a/neu

1.14.4 cau'r gŵyn a'i hatgyfeirio at gorff arall.

1.15 Mewn rhai achosion, bydd yn amlwg o'r cychwyn nad oes angen i ni ymchwilio am fod y gŵyn yn ymwneud â materion na all achos o amharu ar addasrwydd i ymarfer ddeillio ohonynt. Fel arfer, byddwn yn cau'r achosion hyn heb gymryd camau pellach.

1.16 Os caiff y gŵyn ei chau, bydd yn aros ar ffeil fewnol y cofrestrai yn unol â pholisi cadw'r Cyngor Optegol Cyffredinol. Gellir ailystyried y gŵyn yn nes ymlaen yng ngoleuni unrhyw gwynion newydd/pellach a godir yn erbyn y cofrestrai.

1.17 Os na fyddwn yn gallu asesu a ddylid agor achos ar ôl cael yr wybodaeth gychwynnol ai peidio, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth i helpu gyda'r asesiad. Mae'n bosibl y caiff y gŵyn ei chau hefyd am na allwn gael gafael ar wybodaeth i gadarnhau ymchwiliad.

## 2 Pa gwynion y bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn eu derbyn

2.1 Mae 19 o safonau y mae'n rhaid i optometryddion ac optegwyr cyflenwi roi sylw iddynt (Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi) a 18 o safonau y mae'n rhaid i fyfyrwyr optegol roi sylw iddynt (Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol).

2.2 Mae busnesau cofrestredig yn ddarostyngedig i'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol.

2.3 Bydd angen i optometryddion ac optegwyr cyflenwi arfer eu barn broffesiynol wrth benderfynu sut i gyrraedd y safonau.

2.4 Ar gyfer pob cwyn, byddwn yn ystyried yn gyntaf a yw'r safonau perthnasol wedi cael eu torri o bosibl. Os felly, byddwn wedyn yn ystyried a fyddai'r achos o dorri'r safonau yn gyfystyr â honiad dan a.13D o Ddeddf Optegwyr 1989 (fel y nodir ym mharagraff 1.9 uchod).

2.5 Byddwn hefyd yn asesu a yw cynnwys y gŵyn yn codi risgiau i'r cyhoedd, risgiau i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, a risgiau i ddatgan a chynnal safonau ymddygiad.

2.6 Mewn rhai achosion, bydd y gŵyn am gofrestrai yn peri risg ddifrifol neu uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd i'r graddau y gallai fod angen atgyfeirio am

orchymyn interim.

**Honiadau o dan adran 13D o Ddeddf Optegwyr 1989**

Camymddwyn

2.7 Gellir gwneud honiad o gamymddwyn yn erbyn cofrestrai. Caiff y canlynol eu hystyried yn eu tro er mwyn penderfynu a yw cwyn yn gyfystyr â honiad o gamymddwyn:

2.7.1 a oes cwyn am ymddygiad cofrestrai? Os felly,

2.7.2 rhaid i'r camymddwyn y cwynir amdano fod yn ddifrifol. Gallai hyn gynnwys:

i. ymddygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn resynus/truenus/o bryder digonol gan gyd-ymarferwyr.
ii. ffordd o ymddwyn neu ddigwyddiad untro sy'n arbennig o ddifrifol.

2.8 Caiff hyn ei ystyried fesul achos unigol bob amser a gall yr enghreifftiau o gamymddwyn gynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

2.8.1 newid cofnodion ar ôl cael cwyn.

2.8.2 peidio â datgan rhybuddiad/euogfarn.

2.9 Ymhlith yr enghreifftiau o achosion sy'n annhebygol o fod yn gyfystyr â chamymddwyn mae:

2.9.1 mân bryderon clinigol neu bryderon sy'n ymwneud ag anoddefiad i bresgripsiynau;

2.9.2 digwyddiadau clinigol unigol heb ddim nodweddion gwaethygol, a lle nad oes risg barhaus i ddiogelwch cleifion nac i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn;

2.9.3 pryderon sydd wedi cael sylw priodol ar lefel leol a lle byddai ymyriad rheoleiddiol yn anghymesur; a

2.9.4 mân faterion anghlinigol – fel delio'n wael â chwynion heb ddim nodweddion gwaethygol.

Perfformiad Proffesiynol Diffygiol

2.10 Gall honiad o berfformiad proffesiynol diffygiol gael ei wneud yn erbyn cofrestrai (ac eithrio yn achos myfyriwr cofrestredig).

2.11 Caiff y canlynol eu hystyried yn eu tro er mwyn penderfynu a yw cwyn yn gyfystyr â honiad o berfformiad proffesiynol diffygiol:

2.11.1 a oes cwyn am berfformiad proffesiynol y cofrestrai?

2.11.2 mae'r perfformiad yn annerbyniol o isel ac mae hyn wedi cael ei ddangos drwy gyfeirio at sampl deg o waith yr ymarferydd.

2.12 Caiff hyn ei ystyried fesul achos unigol bob amser ac un enghraifft bosibl o berfformiad proffesiynol diffygiol yw:

2.12.1 nifer o fethiannau wrth gadw cofnodion.

Rhybuddiad neu Euogfarn

2.13 Gall honiad gael ei wneud yn erbyn cofrestrai os bydd wedi cael rhybuddiad a/neu wedi'i gael yn euog o drosedd.

2.14 Bydd copi ardystiedig o euogfarn yn 'dystiolaeth bendant' o'r drosedd.

2.15 Caiff y canlynol eu hystyried yn eu tro er mwyn penderfynu a allai rhybuddiad/euogfarn fod yn gyfystyr â honiad o amharu ar addasrwydd i ymarfer:
- 2.15.1 a oes rhybuddiad/euogfarn droseddol?
- 2.15.2 a yw'r rhybuddiad/euogfarn yn gysylltiedig ag ymarfer proffesiynol y cofrestrai?
- 2.15.3 a fyddai er budd ehangach y cyhoedd i ymchwilio i'r rhybuddiad/euogfarn?

2.16 Ceir categorïau o rybuddiad/euogfarn sy'n annhebygol o fod yn gyfystyr ag amharu ar addasrwydd i ymarfer ac felly mae'n annhebygol y cynhelir ymchwiliad pellach iddynt. Caiff y rhain eu hystyried yn ofalus fesul achos unigol gan roi sylw i'r holl amgylchiadau, a gallent gynnwys y canlynol:
- 2.16.1 mân droseddau moduro.
- 2.16.2 difrod troseddol lefel isel.
- 2.16.3 rhybuddiadau/euogfarnau yn erbyn cyfarwyddwr lleyg.
- 2.16.4 rhybuddiadau ieuenctid.
- 2.16.5 rhybuddiadau amodol.
- 2.16.6 euogfarnau a rhybuddiadau gwarchodedig.

Derbyn cynnig amodol neu gytuno i dalu cosb

2.17 Gellir gwneud honiad yn erbyn cofrestrai os: *yw'r cofrestrai wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur ffisgal) neu wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (cosb yn lle erlyniad)'.*

Achos yn yr Alban

2.18 Gellir gwneud honiad yn erbyn cofrestrai os: *yw'r cofrestrai, mewn achos yn yr Alban am drosedd, wedi bod yn destun gorchymyn o dan adran 246(2) neu (3) o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 sy'n ei ryddhau'n ddiamod.'*

Iechyd Corfforol neu Iechyd Meddwl heb ei reoli neu heb ei gydnabod

2.19 Gall honiad o iechyd corfforol neu iechyd meddwl heb ei reoli neu heb ei gydnabod hefyd gael ei wneud yn erbyn cofrestrai. Caiff y canlynol eu hystyried

yn eu tro a fesul achos unigol:

2.19.1 a honnir bod y cofrestrai'n dioddef o gyflwr iechyd corfforol neu iechyd meddwl?

2.19.2 a yw'r cyflwr iechyd cychwynnol yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd/cleifion a/neu'r cofrestrai oherwydd nad yw'n cael ei reoli gan y cofrestrai neu nad yw'n ei gydnabod?

2.20 Ymhlith yr enghreifftiau o sefyllfaoedd lle y gellir agor achos mae:

2.20.1 pryderon difrifol ynglŷn â pherfformiad a/neu ymddygiad ac mae'n debygol bod iechyd wedi cyfrannu at hynny;

2.20.2 mae’r cofrestrai wedi’i gael yn euog, wedi cael rhybuddiad, neu wedi bod yn destun dyfarniad yn ddiweddar am drosedd lle y gall iechyd fod wedi cyfrannu at hynny (e.e. troseddau sy’n ymwneud â chyffuriau neu alcohol);

2.20.3 nid yw'r cofrestrai'n deall, nid yw wedi ceisio cael triniaeth briodol, neu mae wedi rhoi’r gorau i ymwneud â chymorth.

<u>Penderfyniad gan gorff arall</u>

2.21 Yn rhinwedd a.13D(2)(g), gellir gwneud honiad yn erbyn cofrestrai os: *‘bydd corff yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio’r proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol wedi gwneud penderfyniad i’r perwyl bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer fel aelod o’r proffesiwn hwnnw, neu os bydd corff rheoleiddio yn rhywle arall wedi gwneud penderfyniad i’r un perwyl.’*

## 3 Cyfleu dyfarniadau’r Cyngor Optegol Cyffredinol

3.1 Ar ôl cynnal asesiad, bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn rhoi gwybod i'r achwynydd yn ysgrifenedig, ac i'r cofrestrai lle bo hynny'n berthnasol.

3.2 Ein nod yw cynnal asesiadau priodol a chyson, a bydd y rhain yn ddarostyngedig i’n prosesau sicrhau ansawdd mewnol.

## 4 Hawl i gael adolygiad ar ôl cynnal asesiad

4.1 Gall unrhyw berson sy'n anfodlon ar y penderfyniad i **beidio** ag ymchwilio ymhellach i’w gŵyn ofyn am adolygiad o’r penderfyniad.

4.2 Gall unrhyw berson sy’n anfodlon ar y penderfyniad **i** ymchwilio i gŵyn hefyd ofyn am adolygiad o’r penderfyniad.

4.3 Adolygiad o’r penderfyniad a wnaed fydd hwn, ac nid o’r wybodaeth a ddaeth i law. Cofiwch y bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynir i ategu cais am adolygiad o'r penderfyniad yn rhan o ymchwiliad y Cyngor Optegol Cyffredinol (os cychwynnir ymchwiliad) ac felly y gellid ei hatgyfeirio at Archwilwyr Achos.

4.4 Felly, rydym yn annog cofrestreion i geisio cyngor os byddant yn dymuno gofyn am adolygiad o'r penderfyniad i agor ymchwiliad.

4.5 Dylai ceisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig, gan gynnwys y rhesymau, o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad. Caiff y penderfyniad ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddio, a bydd penderfyniad adolygu ffurfiol yn cael ei gyhoeddi o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r cais am adolygiad ddod i law.

4.6 Os bydd cwyn wedi cael ei hatgyfeirio ar gyfer ymchwiliad, ni chaiff yr ymchwiliad ei ohirio yn ystod cyfnod yr adolygiad a byddwn yn parhau i gynnal yr ymchwiliad yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dylid anfon ceisiadau at:
Pennaeth Hwyluso
Achosion / Head of Case
Progression
Y Cyngor Optegol
Cyffredinol / General
Optical Council
Lefel 29 / Level 29
One Canada Square
Llundain / London
E14 5AA

Neu drwy anfon e-bost at:
ftp@optical.org

---

**Dolenni defnyddiol**
Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol
Gwefan: www.opticalcomplaints.co.uk
E-bost: enquiries@opticalcomplaints.co.uk
Ffôn: 0344 800 5071

Cyngor ar Bopeth
Gwefan: www.citizensadvice.org.uk
Llinell gymorth: 03454 04 05 06